

Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Ein Cynnydd 2021-22



Bydd unrhyw un sy'n cerdded drwy unrhyw ran o'n campws yn gweld bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb strategol yn cael ei fynegi'n amlwg ac yn eglur. Mae mwy na 180 o ofodau wal yn arddangos datganiad Parch ein cymuned – wedi'i eirio a'i ddylunio'n ofalus a'i osod yn y ffyrdd mwyaf amlwg posibl.

Yn wir, rydym yn bwriadu i'r Coleg fod yn ofod i bawb – yn lle agored a chroesawgar lle y caiff nodweddion unigolion eu dathlu a'u gwarchod.

O ran y gwaith creadigol y mae pob un ohonom yn ffynnu arno, mae pob nodwedd yn ein byd yn gyfle i archwilio rhywbeth newydd. Mae'r gwahaniaethau rhyngom yn ein hannog i wthio ffiniau artistig newydd wrth i ni weithio i feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o'n gilydd. I ni, mae'n ymwneud â llawer mwy na pharch. Mae'n hanfodol i'r ffordd yr awn ati i sicrhau rhagoriaeth artistig.

Wrth i ni barhau â'r daith hon, byddwn yn symud ymlaen drwy'r amser, gan fod yn ymwybodol bob amser bod llawer mwy i'w wneud. I gyflawni hyn, rydym yn gweithio gyda'n gilydd – yn fyfyrwyr, cydweithwyr, artistiaid a chynulleidfaoedd – gyda chyfeillion beirniadol gwych i'n herio a'n cefnogi ni â'u llygaid arbenigol. Hoffem ddiolch i bob un ohonynt oherwydd, heb yr egni torfol hwnnw, ni allai'r cynnydd hwn ddigwydd.

Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys amrywiaeth o benawdau ac uchafbwyntiau o 2021-22, gan esbonio rhai o'r ffyrdd rydym wedi bwrw ymlaen â'r gwaith hwn drwy'r flwyddyn ddiwethaf. Drwy rannu'r camau hyn, gobeithiwn y byddwn yn rhoi gwerthfawrogiad cryfach i chi o'n hymrwymiad i gydraddoldeb strategol.

Gan ganolbwyntio bob amser ar wella ein hunain – sy'n nodweddiadol o ffordd conservatoire o weithio, wedi'r cyfan – rydym yn dathlu ein cynnydd yma ac yn edrych ymlaen at y dyfodol.

Yr Athro Helena Gaunt, Prifathro
Natalie Roe, Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Gofod Llawn Parch

Mae gan bawb sy'n gweithio ac yn cydweithio yn CBCDC yr hawl i wneud hynny mewn gofod diogel. Gofod llawn parch yw amgylchedd cefnogol sy'n rhydd o fwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu o unrhyw fath.

+ Fel rhan o gymuned CBCDC byddwn yn gwerthfawrogi ein gwahaniaethau wrth gydweithio, gan hyrwyddo her greadigol tra'n dangos y parch mwyaf at ein gilydd.

+ Fe fyddwn yn gwrtais ac yn trin ein gilydd â pharch bob amser.

+ Os ydym yn dioddef, neu'n dyst i fwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu byddwn yn datgan hynny gan wybod y bydd ein lleisiau'n cael eu clywed ac y rhoddir ystyriaeth ddifrifol iddynt.

+ Byddwn yn gweithio i hyrwyddo dull cadarnhaol, optimistaidd a chyd-gefnogol ar gyfer gweithio ac astudio, gan ddathlu'r celfyddydau a chreadigrwydd.

Ein Gwerthoedd

Arbenigol a
Chynhwysol

Cyfoes a
Chydweithredol

Dyfeisgar a
Chyfrifol

Gyda'n gilydd byddwn yn creu gofod llawn parch.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Dyma'r wyth ffordd rydym yn gweithio tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig. Mae'r manylion llawn yn ein cynllun cyhoeddedig.

1 Diwylliant a Llywodraethu Hyrwyddo urddas, parch, cynhwysiant a thegwch yng nghymuned y Coleg a gwreiddio cydraddoldeb ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Coleg.

2 Cydweithio, Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Sicrhau bod ymgysylltu'n digwydd â staff, myfyrwyr, cynulleidfaoedd a grwpiau o'r gymuned a'r sector gwirfoddol sydd â nodweddion gwarchoddedig drwy gydweithio, cyfathrebu ac ymgynghori.

3 Amrywiaeth Corff y Myfyrwyr a Phrofiad y Myfyrwyr Denu, dethol a chadw amrywiaeth eang o fyfyrwyr i astudio yn y Coleg a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn helpu pob myfyriwr i gymryd rhan yn llawn a gwireddu ei botensial llawn.

4 Denu, Cadw a Datblygu Staff Denu, cadw a datblygu amrywiaeth eang o bobl i weithio i'r Coleg a'u galluogi i ddatblygu a chamu ymlaen yn eu gyrfaedd mewn modd agored a thryloyw.

5 Hygyrchedd Sicrhau bod adeiladau a seilwaith y Coleg yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymunedau ac yn darparu amgylcheddau gweithio a dysgu hygyrch a chynhwysol.

6 Cynhwysiant mewn Arfer Proffesiynol Datblygu dull cynhwysol o ymdrin â gwaith ymchwil, lle y caiff pobl o grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig eu hannog i gymryd rhan a lle y caiff rhwystrau sy'n atal pobl o grwpiau amrywiol rhag cymryd rhan eu chwalu.

7 Cyflog Cyfartal Cynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru bob tair blynedd a rhoi camau gweithredu'r Cynlluniau Gweithredu ar Gyflog Cyfartal sy'n deillio ohonynt ar waith.

8 Casglu a Monitro Data Gwella'r gwaith o gasglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb a gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.

Amcan 1: Diwylliant a Llywodraethu



Hyrwyddo urddas, parch, cynhwysiant a thegwch yng nghymuned y Coleg a gwreiddio cydraddoldeb ym mhenderfyniadau'r Coleg.

- + Rydym wedi cyflwyno **dull cynhwysol o ymdrin ag adnoddau cwricwlwm**, er mwyn cefnogi gweithgarwch addysgu a dysgu. Hefyd, mae adnoddau bellach wedi'u tagio yng nghatalog ein llyfrgell er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig.
- + Cyflwynwyd **canllawiau newydd clir** i gefnogi disgwyliaid uwch ynghylch creu manau cynhwysol ym mhob rhan o'r Coleg. Gan weithio gyda staff, myfyrwyr a phartneriaid allanol, gwnaethom lansio canllawiau iaith i godi ymwybyddiaeth o hil ac iechyd meddwl, gan ddefnyddio gweithgareddau datblygu staff a sefydlu myfyrwyr.
- + Mae ein **datganiadau Parch** bellach i'w gweld ym mhob rhan o'r Coleg, wedi'u hailddylunio a'u harddangos mewn ffordd sy'n sicrhau gwell effaith. Hefyd, tynnwyd sylw ein myfyrwyr newydd at ethos Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru fel Gofod i Bawb drwy gyfnod sefydlu pythefnos o hyd yn 2021, a oedd yn canolbwyntio ar gydraddoldeb a pharch.

Amcan 2: Cydweithio, Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd



Sicrhau bod ymgysylltu'n digwydd â staff, myfyrwyr, cynulleidfaoedd a grwpiau lleol o'r sector gwirfoddol sydd â nodweddion gwarchoddedig drwy gydweithio, cyfathrebu ac ymgynghori.

- + Gwnaeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru **wthio ffiniau newydd** drwy weithio gydag artistiaid blaenllaw, a thymor yr Hydref oedd y mwyaf amrywiol yn hanes y Coleg.
- + Gan gyflwyno **amrywiaeth ehangach o leisiau artistig** i gynulleidfaoedd, cynhaliodd y Coleg gynyrchiadau mwy amrywiol ac uchelgeisiol nag erioed o'r blaen a defnyddiodd y cyfleoedd cydweithredol hyn i gyfoethogi profiadau dysgu'r myfyrwyr.
- + Gwnaethom weithio gyda rhai o artistiaid creadigol mwyaf poblogaidd y diwydiant, gan gynnwys **Awdur Preswyl 2021/22, Roy Williams OBE FRSL** ac Artist Preswyl 2021/22, y cyfansoddwr Errollyn Wallen CBE.
- + Lansiodd **Paneli Cymunedol newydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**, dan arweiniad Undeb y Myfyrwyr mewn partneriaeth â'r Coleg. Roedd y trafodaethau agored a chydweithredol hyn yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â phobl LHDTC+, anabled ac ethnigrwydd.
- + Gwnaethom recriwtio ein **Partner Ymgysylltu â'r Gymuned** cyntaf erioed – rôl sydd â'r nod o gysylltu'r Coleg yn agosach ag ysgolion a chymunedau, canfod rhwystrau posibl ac annog ystod ehangach o ryngweithio.

Amcan 3: Amrywiaeth Corff y Myfyrwyr a Phrofiad y Myfyrwyr



Denu, dethol a chadw amrywiaeth eang o fyfyrwyr i astudio yn y Coleg a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn helpu myfyrwyr i gymryd rhan yn llawn a gwireddu eu potensial llawn.

- + Fel partner ochr yn ochr ag eraill ym maes addysg uwch a'r GIG, gwnaethom gydweithio i lansio **Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Iechyd Meddwl** ym mis Ebrill 2022. Mae'r fenter gwasanaeth ymyrryd hon yn pontio'r bwlch rhwng darpariaeth y Coleg a'r GIG, drwy roi gweithwyr meddygol proffesiynol ar y safle bob wythnos.
- + Gwnaethom lansio ein **Cynllun Bwrsariaethau** ar ei newydd wedd, sy'n rhoi bwrsariaethau awtomatig i bob myfyriwr sy'n ymuno â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru o aelwyd sydd ag incwm is na'r cyfartaledd. Mae 100% o'r rhai sydd wedi derbyn bwrsariaeth yn dweud wrthym ei bod wedi helpu i leddfu pwysau ariannol.
- + Lanswyd ein partneriaeth newydd i greu'r **Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol**, sef y gerddorfa gyntaf yng Nghymru sy'n cael ei harwain gan bobl anabl. Nod y fenter, sy'n cael ei chynnal ar y cyd â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, yw dod â phobl ifanc ddawnus anabl i mewn i'r brif ffrwd drwy brofiad conservatoire.


Amcan 4: Denu, Cadw a Datblygu Staff



Denu, cadw a datblygu amrywiaeth eang o bobl i weithio i'r Coleg a'u galluogi i ddatblygu a chamu ymlaen yn eu gyrfaedd mewn modd agored a thryloyw.

- + Rydym wedi datblygu hyfforddiant staff ar Ymarfer Adferol ymhellach er mwyn meithrin mwy o arbenigedd. Ar ôl i weithgor o 14 o staff sydd wedi cael hyfforddiant lefel 2 gael ei sefydlu yn ystod haf 2022, mae gennym bellach **39 o ymarferwyr cymwysedig** er mwyn helpu i ddatrys gwrthdaro yn y Coleg yn gynnar.
- + Yn y gweithgaredd Ymchwil ac Ysgolheictod, gwnaethom **archwilio'n ddwfn i'n prosesau moeseg**, er mwyn adolygu ac ail-lunio ein ffordd o weithio. O ganlyniad i hynny, rydym wedi creu Is-bwyllgor i oruchwylio ymchwil myfyrwyr a staff ac wedi dechrau cynnig hyfforddiant moeseg i bob myfyriwr.
- + Roedd ein **Diwrnod Datblygu Staff** eleni yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Amcan 5: Hygyrchedd



Sicrhau bod adeiladau a seilwaith y Coleg yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymunedau ac yn darparu amgylcheddau gweithio a dysgu hygyrch a chynhwysol.

- + Gyda golwg ar amrywiaeth yn y dyfodol, gwnaethom gomisiynu **archwiliad cynhwysfawr** o'n cyfleusterau, er mwyn ein helpu i ganfod rhwystrau gwirioneddol lle maent yn bodoli.
- + Mae **Cynllun Gweithredu Hygyrchedd** llawn ar gyfer y Coleg cyfan bellach yn ffordd ddynamig o gadw golwg ar gynnydd o ran hygyrchedd.
- + Er mwyn sicrhau bod y gwaith ar hygyrchedd yn mynd rhagddo mor gyflym â phosibl, gydag atebolrwydd clir, gwnaethom gyflwyno **Gweithgor Trawsgolegol** newydd.

Amcan 6: Cynhwysiant mewn Arfer Proffesiynol



Datblygu dull cynhwysol o ymdrin â gwaith ymchwil, lle y caiff pobl o grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig eu hannog i gymryd rhan a lle y caiff rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan eu chwalu.

- + Mae ein **paneli arholiadau perfformiad** mewn cerddoriaeth wedi cael eu hadfywio â ffocws ar degwch a thryloywder, gan gynnwys cynrychiolaeth gryfach o nodweddion gwarchoddedig a rôl eiriolaeth myfyrwyr ar gyfer Cadeirydd pob panel.
- + Gwnaethom barhau â'n hymrwymiad i fod yn aelod ffurfiol o Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Conservatoires UK, gan rannu arferion gorau â'r sector conservatoires ehangach a **bod ar flaen y gad o ran defnyddio data** i wneud penderfyniadau strategol.
- + Drwy ein Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r is-grwpiau, cysylltiedig buom yn gweithio gyda **phartneriaid arbenigol** gan gynnwys Race Council Cymru, Stonewall Cymru ac UCAN Productions.

Amcan 7: Cyflog Cyfartal



Cynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru bob tair blynedd a rhoi camau gweithredu'r Cynlluniau Gweithredu ar Gyflog Cyfartal sy'n deillio ohonynt ar waith.

- + Fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru, mae **Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi'i gynnwys** yng nghylch adolygu rheolaidd y Brifysgol, ac mae'r Brifysgol a'r Coleg yn ymrwymedig i sicrhau na fydd gwahaniaethu cyflog o fewn strwythurau cyflog.
- + Caiff yr Adolygiad Cyflog Cyfartal nesaf **ei gynnal yn 2024**, yn seiliedig ar archwiliad i gymharu cyflogau'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig (oedran, anabledd, hil, rhyw) a sicrhau bod cyflog cyfartal yn cael ei roi am waith cyfartal.
- + Yn y cyfamser, rydym yn parhau i **gasglu data a monitro cyflogau** drwy'r gweithlu cyfan.

Amcan 8: Casglu a Monitro Data



Gwella'r gwaith o gasglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb a gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.

- + Er mwyn cydnabod rôl hollbwysig meincnodi i fonitro cynnydd, gwnaethom benodi ein **Harweinydd Data cyntaf** yn ystod haf 2022. Yn dilyn y prosiect data arbenigol a gomisiynwyd y llynedd, bydd y rôl hon yn mireinio ein defnydd o ddata ac yn datblygu dealltwriaeth ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.
- + Nododd **arolwg staff** pwrpasol nodweddion gwarchodedig ym mhob rhan o'n cymuned, er mwyn helpu i lywio datblygiad yn y dyfodol ac aelodaeth pwyllgorau ar draws y Coleg.

Y Flwyddyn i Ddod

Mae'r daith yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac yn ystod 2022-23 byddwn yn parhau i wneud cynnydd mewn perthynas â phob un o'n hamcanion. Mae ein cynllun gweithredu yn fwriadol ddynamig, gan gydnabod y bydd rhai agweddau'n digwydd yn gynt na'r disgwyl ac y bydd rhai'n digwydd yn hwyrach na'r disgwyl. Y peth pwysicaf i ni yw ein bod yn agored i newid a her ar hyd y daith, gan ddysgu cymaint ag y gallwn gyda'n gilydd.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, ein nod yw sicrhau mwy o gynnydd mewn nifer o feysydd blaenoriaeth penodol. Byddwn yn gwneud y canlynol:

Gwneud newid sylweddol yn ein hygyrchedd, er mwyn sicrhau ein bod wir yn ofod i bawb. Mae hyn yn gofyn am asesiad gonest o'r daith gyfan i unrhyw un sy'n ymwneud â'r Coleg – myfyriwr, cydweithiwr, aelod o'r gynulleidfa neu unrhyw un arall y gallem fod yn berthnasol iddo. O'n gwefan i'n manau addysgu a dysgu ffisegol, byddwn yn gwneud gwelliannau fel ein bod yn fwyfwy cynhwysol, ac yn dysgu wrth i ni fynd yn ein blaenau.

Gwneud mwy o ymdrech i ddod o hyd i dalent y dyfodol a'i meithrin, ymhlith myfyrwyr a chydweithwyr yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae angen y dalent orau i'n helpu i gyflawni'r rhagoriaeth y byddwn bob amser yn anelu ati, a gwyddom fod angen i ni weithio'n galetach i gyrraedd amrywiaeth ehangach o bobl a lleoedd a chysylltu â nhw. Ein nod yw bod yn sefydliad sy'n ffynnu ar y gymysgedd gyfoethogaf posibl o amrywiaeth.

Hoffem ddiolch i bawb yng nghymuned Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru sy'n ein helpu ar y daith bwysig hon.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflwyno adroddiad arall ar ein cynnydd wrth i ni ymdrechu i gyflawni ein hamcanion strategol ym mhob agwedd ar fywyd yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Os hoffech gael gwybod mwy am ein gwaith yn y maes hwn, cysylltwch ag info@rwcmd.ac.uk